

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: JP/CH/SB

7 Tachwedd 2022

Annwyl Gydweithiwr

DIWEDDARIAD AR SEFYDLU GWEITHREDIAETH Y GIG AR GYFER CYMRU AC ADBORTH AROLWG RHANDEILIAID

Roeddwn am fachu ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen weithredu Gweithrediaeth GIG Cymru, a diolch i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a gyhoeddwyd gennym yn ystod yr haf er mwyn casglu adborth ar y rhaglen weithredu. Rwyf hefyd wedi croesawu'r cyfle i drafod yr adborth a gafwyd gyda rhai partiïon yn uniongyrchol dros yr wythnosau diwethaf.

Yn ddealladwy roedd ystod eang o safbwyntiau yn cael eu rhoi, a hoffwn eich sicrhau'n bersonol bod yr holl adborth yn cael ei edrych arno a'i ffactorio i'r cynlluniau gweithredu.

Roedd rhai materion cyffredin yn cael eu codi ynghylch amseru a sut y bydd y model hybrid sydd wedi'i nodi yn gweithio'n ymarferol. Hoffwn fynd i'r afael â'r ddau yn eu tro.

O ran y dull model hybrid yr ydym yn ei gymryd, rydym yn adeiladu ar ein dysgu o'r pandemig a roddodd gyfle i ni ailfeddwl sut rydym yn sefydlu'r Weithrediaeth. Un o'n prif ystyriaethau oedd ei sefydlu gyda chyn lleied o aflonyddwch i'r system iechyd â phosibl. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i ni ddechrau ar fisoedd mwy heriol y gaeaf. Archwiliwyd nifer o fodolau ac mae'r model hybrid hwn yn llawer cyflymach i'w roi ar waith a gall fod yn fwy ystwyth. Mae hefyd yn osgoi sefydlu haen statudol ychwanegol a'r angen i drosglwyddo pwerau neu drosglwyddiadau staff ar raddfa fawr, a fyddai'n tynnu sylw yn ddiangen ar hyn o bryd.


Er y bydd Gweithrediaeth y GIG yn dîm bach yn y Llywodraeth, y bwriad yw y bydd yn goruchwyllo ac yn cyfarwyddo adnodd cenedlaethol llawer mwy wedi'i leoli o fewn y GIG. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â chyrrff cenedlaethol eraill megis Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), i gyflawni'r strategaethau uchelgeisiol sydd wedi'u pennu ac yn y pen draw yn ysgogi gwelliannau i ansawdd a diogelwch gofal.

O ran amseru, rydym yn canolbwyntio nawr ar weithredu'r model hwn a'r nod o hyd o wneud cynnydd sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn a dod â Gweithrediaeth y GIG i fodolaeth o

ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae rhaglen weithredu ffurfiol, gan gynnwys Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a'r GIG, yn cyngori ac yn cefnogi cyflawni'r blociau adeiladu allweddol y bydd angen iddynt fod ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaethau manylach y bydd Gweithrediaeth y GIG yn eu harfer, sut y byddant yn eu cyflawni a'r blaenoriaethau y bydd eu hangen arno i'w cyflawni.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto maes o law i roi manylion pellach am sut mae cynlluniau Gweithrediaeth y GIG yn mynd yn eu blaen. Yn y cyfamser byddai croeso mawr i'ch meddyliau ar sut y dylai Gweithrediaeth y GIG gyflawni ei swyddogaethau ac ar flaenoriaethau cynnar. Mae cynnig agored i chi hefyd anfon cwestiynau, adborth a syniadau ar y rhaglen weithredu i'm tîm yn nhsexecutivefunction@gov.wales. Os oes yna feysydd penodol o bryder lle hoffech siarad â mi yn uniongyrchol cysylltwch â fy swyddfa: pstodgforhsscenswales@gov.wales

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Judith Paget". The script is cursive and fluid.

Judith Paget CBE